Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Safonau ar gyfer Sicrwydd Cymhwysedd Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru

## Canllawiau i unigolion sy'n newydd i ymarfer ragnodi, sy’n ehangu neu’n newid cwmpas ymarfer, a'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl cyfnodau o absenoldeb

Cynhyrchwyd Mehefin 2026; Dyddiad adolygiad Chwefror 2027

Mae gofynion tystiolaethu ar gyfer unigolion sy'n newydd i ymarfer rhagnodi, sy'n ehangu neu'n newid cwmpas ymarfer yn sylweddol, a'r rhai sy'n dychwelyd i ymarfer ar ôl cyfnodau o absenoldeb y tu allan i gwmpas y Safonau Sicrwydd Cymhwysedd ar gyfer Rhagnodwyr Annibynnol ac Atodol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae rhagnodwyr anfeddygol (NMPs) a chyflogwyr yn gofyn yn rheolaidd am arweiniad ar y mathau o weithgareddau a allai helpu rhagnodwr i ddod yn gymwys mewn maes newydd neu wrth ddychwelyd i ymarfer. Am ragor o arweiniad ar ehangu cwmpas ymarfer gweler Canllawiau Proffesiynol y Coleg Brenhinol Fferylliaeth (RCPharm): Ehangu Cwmpas Ymarfer

| | |
|---|---|
| **NODWCH** | Pam mae angen i chi ehangu/newid eich cwmpas ymarfer rhagnodi?<br>**NEU**<br>Ydych chi'n dychwelyd i ymarfer rhagnodi ar ôl cyfnod o absenoldeb? |
| **YSTYRIWCH** | Nodwch sut rydych chi'n mynd i ehangu/newid eich cwmpas ymarfer rhagnodi.<br>Aseswch eich hun yn erbyn y Coleg Fferylliaeth Brenhinol: Fframwaith Cymhwysedd i Bob Rhagnodwr i nodi’r dysgu ar gyfer eich maes rhagnodi a ddymunir |
| **CYNLLUNIWCH** | Cynlluniwch amcanion CAMPUS (SMART) |
| **GWEITHREDWCH** | Cyflawnwch eich gweithgareddau dysgu.<br>Mae'r gweithgareddau dysgu a awgrymir y gellir eu cyflawni fel rhan o'r broses yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):<br>• Ddysgu hunangyfeiriedig - Adolygu canllawiau rhagnodi lleol a chenedlaethol a llwybrau triniaeth, cyrsiau dysgu o bell, cyrsiau addysg uwch, cymryd rhan mewn cynadleddau a gweithdai<br>• Trafodaeth adolygiad gan gymheiriaid - adolygu canllawiau gwrthficrobaidd lleol a thrafod unrhyw feysydd i'w datblygu gyda Fferyllwyr Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd, trafodaeth grŵp neu un-i-un yn seiliedig ar achosion, cymryd rhan mewn rhaglenni mentora neu glybiau cyfnodolion<br>• Adolygu canllawiau corff proffesiynol<br>• Cysgodi clinigwyr / NMPs mwy profiadol (os yw'n briodol). |
| **GWERTHUSWCH** | A yw eich anghenion dysgu yn y maes rhagnodi a ddymunir wedi'u diwallu?<br>Sut allwch chi ddangos eich bod bellach yn gymwys yn y maes newydd o ymarfer rhagnodi?<br>Adolygwch gymhwysedd yn y maes newydd/ ar ôl dychwelyd i ymarfer rhagnodi |